# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 5 Mawrth 2014** |
| Amser: | **09.35 - 12.05** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_05_03_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Dafydd Elis-Thomas (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Keith Davies**<br>**Russell George**<br>**Llyr Gruffydd**<br>**Julie James**<br>**Julie Morgan**<br>**William Powell**<br>**Antoinette Sandbach** |
| Tystion: | **Alun Davies, Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**<br>**Christianne Glossop, Y Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cymru**<br>**Dean Medcraft, Llywodraeth Cymru**<br>**Matthew Quinn, Llywodraeth Cymru**<br>**Andrew Slade, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Alun Davidson (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**<br>**Elfyn Henderson (Ymchwilydd)**<br>**Martin Jennings (Ymchwilydd)** |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Joyce Watson.  Roedd Keith Davies yn bresennol fel dirprwy.

1.2 Gwnaeth y Cadeirydd ddatganiad mewn ymateb i adroddiad y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru.

## 2 Craffu ar waith y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd - Sesiwn graffu ariannol

2.1 Ymatebodd y Gweinidog a'i swyddogion i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor gyda rhagor o wybodaeth am y cynllun iawndal ar gyfer y diwydiant pysgota yn sgîl difrod y stormydd diweddar.

## 3 Craffu ar waith y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd - Sesiwn graffu gyffredinol

3.1 Ymatebodd Gweinidog a'i swyddogion i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion am nifer y contractau Glastir a ddosbarthwyd i ffermwyr erbyn 1 Ionawr 2014, ac am nifer y contractau a ddychwelwyd hyd yn hyn.

3.3 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion am sylwadau'r Pwyllgor ynghylch casglu deunydd ailgylchu i fwrdd polisi'r Gweinidog ar ailgylchu.

## 4 Papurau i'w nodi

### Llythyr gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd - Ymateb i’r argymhellion yn adroddiad rhywogaethau goresgynnol estron y pwyllgor

4.1 Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

### Llythyr gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd - Y wybodaeth ddiweddar ynghylch diogelu arfordir Cymru

4.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr.